

Hysbysiad Newyddion

Valero'n Tynnu Sylw Ysgrifennydd yr Economi at Fuddiannau Prosiect Ken Skates yn ymweld â Phurfa Penfro i ddysgu am fuddsoddiad arfaethedig mewn Uned Gwres a Phŵer Cyfunedig

Penfro, 11 Ebrill 2017 – Ymwelodd Ken Skates, yr Ysgrifennydd dros yr Economi a'r Seilwaith â Sir Benfro heddiw (Dydd Mawrth) i ddysgu mwy am gynigion Valero ar gyfer Uned Gydgyhyrchu Gwres a Phŵer Cyfunedig (CHP) ym Mhurfa Penfro.

Roedd ymweliad Ysgrifennydd yr Economi'n cynnwys cylchdaith o'r cyfleuster gyda rhai o arweinwyr y burfa a thîm prosiect yr Uned Gwres a Phŵer Cyfunedig, i weld y safle adeiladu arfaethedig drosto'i hun. Bydd y prosiect arfaethedig yn darparu pŵer i'r burfa yn ogystal ag ategu galw'r safle am ager, fel bod unig burfa olew Cymru, ac un o'r cyflogwyr rhanbarthol mwyaf, yn gallu cynnal ei allu cystadleuol byd-eang. Yn ystod ei ymweliad, cymrodd Ysgrifennydd yr Economi amser hefyd i siarad â grŵp o brentisiaid Valero a gweld peth o'r gwaith a wnânt fel rhan o'u hastudiaethau.

Meddai Ken Skates, Ysgrifennydd yr Economi, "Rwy'n cael fy nghalonogi'n fawr gan fwriad Valero i wneud y buddsoddiad sylweddol hwn o £100 miliwn yma yn Sir Benfro. Mae'r burfa yng nghalon Ardal Fenter Dyfrffordd y Ddau Gleddau, a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru i gynorthwyo'r sector ynni yn y rhanbarth. Mae Valero'n gyflogwr pwysig iawn yn y cylch, yn cynnal dros fil o deuluoedd sy'n dibynnu ar y gyflogaeth a'r swyddi sy'n talu'n dda iawn yn y burfa."

Meddai Ed Tomp, Is-lywydd Valero a Rheolwr Cyffredinol y Burfa, "Gyda diwydiant puro'r DU yn wynebu heriau niferus, bydd y prosiect arfaethedig hwn yn cynorthwyo sicrhau bod Purfa Penfro – sy'n un o gyflogwyr blaenllaw Cymru ac un o burfeydd mwyaf a mwyaf cymhleth Ewrop – yn dal i fod yn llwyddiannus yn y farchnad fyd-eang gystadleuol, ac roedd yn wir bleser gallu dweud mwy am ein cynlluniau wrth Ysgrifennydd yr Economi."

Meddai Ysgrifennydd yr Economi hefyd, "Roedd yn wych gallu treulio rhywfaint o amser gyda phrentisiaid Valero. Mae rhagen brentisiaethau'r burfa'n cynnig llwybr i bobl ifanc yma yn Sir Benfro tuag at gyflogaeth fedrus a bydd y prosiect hwn yn mynd ymhell tuag at gynorthwyo sicrhau swyddi yma i'r cenedlaethau a ddaw."

Diwedd.



Yn y llun: Ken Skates AC, yr Ysgrifennydd dros yr Economi a'r Seilwaith (ail o'r chwith) gydag aelodau Tîm Prosiect yr Uned Gydgyhyrchu CHP ym Mhurfa Valero Penfro



Yn y llun: Ken Skates AC, yr Ysgrifennydd dros yr Economi a'r Seilwaith, yn cyfarfod prentisiaid Valero ym Mhurfa Valero Penfro



Yn y llun: Ken Skates AC, yr Ysgrifennydd dros yr Economi a'r Seilwaith, ym Mhurfa Valero Penfro